CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i:	**Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**
Dyddiad y cyfarfod:	**26 Medi 2022**
Teitl:	**Cylch Gorchwyl Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**
Pwrpas yr adroddiad:	**Derbyn argymhellion i ddiwygio'r geiriad fel y nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor**
Am:	**Penderfyniad**

Nodir Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn Atodiad 1 o'r adroddiad hwn (fel y'i cymeradwyid gan y Cyngor ar 22/09/2016) ac fe'u crynhoir yn y Cyfansoddiad fel a ganlyn:

Pwyllgor	**Swyddogaethau**
Pwyllgor Elusen Ymddiriedolwyr **10 aelod: 5 pleidleisio a 5 heb bleidleisio)**	Gweithredu fel ymddiriedolwr mewn perthynas â'r holl asedau eiddo a ddelir gan y Cyngor ar ymddiriedolaethau elusennol. Penderfynu ynghylch asedau elusennol er pennaf les yr elusennau dan sylw. Derbyn adroddiadau ar faterion elusennol a sicrhau y cydymffurfir â gofynion y Comisiwn Elusennau a chyfraith elusennol fel y bônt yn berthnasol i'r asedau elusennol y mae'r Cyngor yn eu dal drwy ymddiriedolaeth.

Fodd bynnag, mae llinell gyntaf o'r Cylch Gorchwyl, fel y'i diwygiwyd gan y Cyngor ar 22/09/2016 (cofnod 10) yn nodi 'I weithredu fel ymddiriedolwr mewn perthynas â'r holl asedau a gedwir gan y Cyngor ar ymddiriedolaethau elusennol.' felly mae ychydig o wahaniaeth i'r hyn a nodir yn y Cyfansoddiad ar hyn o bryd.

Argymhelliad(au):

a) Bod aelodau'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn nodi'r Cylch Gorchwyl yn Atodiad 1;
b) Bod Aelodau'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn argymell bod y Cyngor yn ystyried y gwelliannau canlynol i'r Cylch Gorchwyl fel y'u hystyriwyd gan Weithgor y Cyfansoddiad ar 12/09/2022:
    i. I ddisodli'r frawddeg gyntaf sy'n darllen **"Gweithredu fel ymddiriedolwr ar gyfer yr holl asedion eiddo ym meddiant y**

Cyngor drwy ymddiriedolaeth elusennol" gyda'r canlynol: **"Gweithredu fel ymddiriedolwr mewn perthynas â'r holl asedau eiddo a ddelir gan y Cyngor ar ymddiriedolaethau elusennol"**

ii. I gynnwys y canlynol o fewn y Cyfansoddiad ar ôl y llinell '10 aelod: 5 pleidleisio a 5 heb bleidleisio': **"Cadeiryddion y** Pwyllgorau **Trosolwg a Chraffu sydd a'r hawl i bleidleisio ond yn absenoldeb Cadeirydd gall Is-gadeirydd yr un** Pwyllgor **Trosolwg a Chraffu gael yr hawl i bleidleisio"**

Rhesymau dros benderfyniad:	**Egluro swyddogaeth y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau fel y nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor**
Atodiadau:	**Atodiad 1 – Cylch Gorchwyl PYE 22/09/2016**
Pennaeth Gwasanaeth:	**Ein Prysor – SAC Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**
Swyddog Adrodd:	**Louise Harries – Cyfreithiwr**
Dyddiad:	**01/09/2022**

Atodiad 1

Cylch gorchwyl y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau

Rôl:

- Gweithredu fel ymddiriedolwr parthed yr holl asedau a gedwir gan y Cyngor fel ymddiriedolaeth elusennol.
- Gwneud penderfyniadau ar asedau elusennol er budd gorau'r elusen.
- Derbyn adroddiadau ar faterion elusennol er mwyn sicrhau gofynion y Comisiwn Elusennau ac y cedwir at gyfraith elusennol cyn belled â'u bod yn ymwneud â'r asedau a gedwir gan y Cyngor ar ymddiriedolaeth.

Bydd angen i ymddiriedolwyr elusennol weithredu er budd gorau'r elusen wrth wneud penderfyniadau a bydd yn rhaid iddynt ymarfer gofal a sgiliau rhesymol wrth wneud hynny. Gwneir penderfyniadau gan y Pwyllgor ar y cyd a bydd y cyfrifoldeb amdanynt hefyd ar y cyd. Bydd Aelodau'r Pwyllgor yn manteisio ar yr indemniad cyffredinol a roddir gan y Cyngor i Aelodau a Swyddogion ar yr amod eu bod yn gweithredu'n onest, o fewn eu pwerau a phwerau'r Elusen, ac wrth gwrs mewn ewyllys da.

Aelodaeth:

Bydd pump Cadeirydd o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor yn aelodau'r Pwyllgor, gyda hawliau pleidleisio. Bydd pump Is-Gadeirydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yno fel sylwedyddion, fodd bynnag yn absenoldeb Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu penodol yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennol, bydd gan Is-gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu penodol dan sylw hawl i bleidleisio yn y Pwyllgor hwnnw

Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu fydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennol.

Cyfarfodydd:

Bydd cyfarfodydd y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn cael eu trefnu yn union ar ôl pob Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu fodd bynnag ni ddylid ei gynnal os nad oes materion ynglŷn ag ymddiriedolaeth i'w drafod.